







# T6S

T6S yw'r enw newydd ar Brawd Health, a ddechreuodd yn wreiddiol fel bŵtcamp ar Ynys y Barri yn 2014. Yn dilyn y cyfnod clo, tyfodd y busnes i'w gampfa awyr agored ei hun yn y Goodsheds, ac mae bellach wedi agor cyfleuster newydd mewn hen sied drenau, a ddefnyddiwyd yn flaenorol i atgyweirio'r peiriannau trên a oedd yn allforio glo o Ddociau'r Barri.

Meddai'r sylfaenydd Mark Lloyd:
"Ar ôl agor ein lleoliad cyntaf ym mis Awst 2020, fe ddechreuon ni edrych ar ein brand a sylweddoli ein bod ni eisiau mynd ymhellach. Ry'n ni wedi cymryd yr elfennau roedd pawb yn eu caru am Brawd Health, ac rydyn ni wedi ffurfio ein brand ffitrwydd newydd - T6S - Y Chweched Synnwyr"




“"Ry'n ni hefyd yn falch iawn ein bod ni wedi gallu ehangu'r busnes drwy fuddsoddiad preifat allanol i mewn i Gymru, y Fro ac wrth gwrs y Barri. Rydym wedi creu 4 swydd llawn amser ac rydym nawr yn ceisio partneru gyda busnesau lleol a sectorau eraill i roi'r Barri a'r Fro yn wirioneddol ar y map!"

"Y meddylfryd yn y brand yw bod ffitrwydd ar gyfer yr holl synhwyrau. Nid campfa yn unig mohono, nid dosbarth ymarfer corff arall yn unig mohono.  Mae'n rhywbeth sy'n dod â synnwyr o berthyn, ymdeimlad o gyffro, ymdeimlad o anogaeth.  Roedd yr holl bethau hyn yn ein helpu ni i greu T6S."

"Gyda'r gofod hwn, rydym yn bwriadu cyflwyno mwy o ddosbarthiadau ffitrwydd i'n portffolio a'n gwasanaeth, i wneud yn siŵr bod rhywbeth i bawb, boed hynny mewn amgylchedd dosbarth grŵp, mewn hyfforddiant lled-breifat neu bersonol. Rydyn ni wastad wedi bod eisiau bod yn wahanol gyda'r hyn rydyn ni'n ei gynnig ac roedd y gofod newydd hwn yn gweiddi arnom oherwydd y ffordd yr oedd yn gwneud inni deimlo.  Mae'n fawr, yn agored, yn olau ac mae mewn lleoliad gwych."

TMae T6S yn cynnig ystod o gynigion rhagarweiniol i aelodau newydd, gyda dosbarthiadau pwrpasol gan gynnwys ‘Chwys, Grym a Ffeibr’ a dosbarth newydd arbennig ‘Elfen’.  Mae hyn i gyd ochr yn ochr â'i Bŵtcamps awyr agored presennol a’u hyfforddiant personol lled-breifat.

trainshed@t6s.co.uk
www.t6s.co.uk
T6S yn y Sied Drenau, Hood Road, Y Barri
www.facebook.com/T6SFitnessUK

**CORFF I MEDDWL I ANTUR**
FFITRWYDD I'R HOLL SYNHWYRAU